# Pontio'r Bwlch

## Sut i wella'r system fwyd i bawb




PONTIO'R BWLCH
Alexandra Rose Charity
GROWING COMMUNITIES
NOURISH SCOTLAND
Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales
sustain the alliance for better food and farming

**Awduron a chydlynwyr y rhaglen:**
Hannah Gibbs a Kiloran O'Leary (Sustain)

**Golygyddion yr adroddiad:**
Kath Dalmeny a Sarah Williams (Sustain), Katie Palmer (Synnwyr Bwyd Cymru)

*Llun clawr blaen:* Lee Robb, Carrick Greengrocers © Eleanor Church

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol .... 4

Creu system fwyd iach, cynaliadwy a theg .... 5

Pontio'r Bwlch .... 6

Buddion lluosog cefnogi twf garddwriaeth sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur 9

Troi canfyddiadau yn ddatrysiadau polisi .... 11

Argymhellion polisi .... 21

Y camau nesaf .... 23

Atodiad A: Yr argymhellion polisi yn ôl gwlad .... 24

Atodiad B: Methodoleg modelu economaidd .... 28

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi argymhellion polisi allweddol a'r camau nesaf sydd eu hangen i greu cyfleoedd i ffermwyr a thyfwyr ym Mhrydain i ddarparu ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur, ac sydd ar gael i bawb.

Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar naw cynllun peilot sydd wedi'u dylunio a'u rhedeg ar y cyd gan bartneriaid[1] ledled y DU. Roedd y dulliau arloesol hyn yn pontio'r bwlch – rhwng ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n cael eu tyfu gan ddefnyddio dulliau organig gan ffermwyr Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) a phobl ar incwm isel ledled y DU – mewn lleoliadau manwerthu ac ysgolion. Trwy ymchwil ar sail camau gweithredu, canfu'r rhaglen ei bod yn bosibl goresgyn rhwystrau a nododd sut y gellid ehangu'r dulliau hyn, gan dynnu ar dystiolaeth ac arbenigedd ychwanegol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio buddion cynyddu'r mynediad at ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur, ac maent hefyd yn dangos y newidiadau ymarferol systemig sydd eu hangen yn y tymor byr yn ogystal â'r tymor hwy i wella'r system fwyd. Gan ddefnyddio data, gwaith arsylwi a modelu rydym yn dangos y gall buddsoddiad digonol a defnyddio pŵer contractau'r sector cyhoeddus helpu i gyflawni nodau'r llywodraeth i gyrraedd nodau'r llywodraeth ar gyfer cyrchu 50% o fwyd lleol neu gynaliadwy mewn contractau caffael bwyd y sector cyhoeddus, hybu'r sector garddwriaeth, sicrhau bod pobl yn derbyn ffrwythau, llysiau a chodlysiau maethlon a dyfir yn lleol mewn ysgolion a lleoliadau manwerthu lleol a galluogi'r cadwyni cyflenwi a all gyflenwi'r bwyd hwn yn lleol i ffynnu.

## Argymhellion polisi

1. **Gwella'r cyflenwad – Hybu cynhyrchu ffrwythau, llysiau a chodlysiau o Brydain**

   - Cyflwyno strategaethau garddwriaeth trawsadrannol i gefnogi twf gwyrdd a chynyddu'r swm o ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n cael eu cynhyrchu a'u bwyta.

   - Cefnogi ffermwyr organig bychan drwy grantiau, mynediad gwell at dir a rhaglenni hyfforddiant.

2. **Datrys y canol colledig - Sicrhau prisiau a seilwaith deg i'n ffermwyr**

   - Buddsoddi mewn seilwaith bwyd lleol fel hybiau bwyd, cyfleusterau prosesu a phecynnu (yn arbennig ar gyfer codlysiau), a chanolfannau dosbarthu i helpu cynhyrchwyr bach lleol i fynd â'u cynnyrch i'r farchnad.

   - Cryfhau tegwch y gadwyn gyflenwi i orfodi cytundebau teg ar draws mwy o'r gadwyn gyflenwi.

3. **Gwella'r mynediad – Galluogi pawb i gael mynediad at fwyd**

   - Defnyddio'r £5 biliwn o fwyd cyhoeddus sy'n cael ei gaffael gan ysgolion ac ysbytai i greu marchnadoedd sefydlog ar gyfer cynnyrch organig sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol. Mae angen seilwaith bwyd lleol gwell ar gyfer hyn, fel y disgrifiwyd uchod. Cafodd y Llywodraeth Lafur ei hethol gydag ymrwymiad maniffesto i sicrhau bod 50% o fwyd cyhoeddus sy'n cael ei gaffael yn lleol neu o safon amgylcheddol uwch.

   - Cynnal cynlluniau peilot a chyflwyno cynlluniau i wneud bwyd yn fwy fforddiadwy ar gyfer aelwydydd incwm isel a lleihau gwariant y GIG, er enghraifft talebau a 'ffrwythau a llysiau ar bresgripsiwn'.

# Creu system fwyd iach, cynaliadwy[2] a theg

Mae bwyd sy'n cael ei dyfu drwy ddilyn egwyddorion organig yn well i bobl ac i'r blaned. Mae cynhyrchu ffrwythau, llysiau a chodlysiau yn y dull hwn yn galw am fuddsoddiad, ac yn aml tyfwyr llai sy'n gorfod ysgwyddo'r risgiau a'r baich ariannol. Mae goruchafiaeth a phŵer corfforaethau bwyd mawr yn y gadwyn gyflenwi bwyd yn gostwng prisiau a delir i gynhyrchwyr, tra bod cynhyrchwyr yn cario'r gyfran uchaf o risg yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn creu rhwystrau ychwanegol i dyfwyr fuddsoddi, tyfu eu busnesau a chael mynediad at farchnadoedd, ac yn aml mae'n golygu nad yw eu cynnyrch ar gael nac yn hygyrch i lawer, yn enwedig i'r rhai sydd ar incwm isel.


## Y bwlch ffrwythau a llysiau:


**Dim ond 35% o'r ffrwythau a llysiau sy'n cael eu bwyta yn y DU sy'n cael eu cynhyrchu yma[3]**

**Rhaid dyblu faint o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu bwyta er mwyn cyrraedd nodau iechyd a thargedau'r blaned[4]**

**Mae 21% o bobl yn y DU yn byw mewn incwm cymharol isel[5]**

**Mae 31% o blant o dan 5 oed yn tyfu i fyny mewn aelwyd ag ansicrwydd bwyd[6]**





Bydd creu system fwyd deg, iach a chynaliadwy yn y DU yn galw am newid ar draws y system gyfan ochr yn ochr ag arweinyddiaeth gadarn. Mae'n rhaid prif-ffrydio system ffermio bwyd maethlon gydag allbynnau is, llai o allyriadau tŷ gwydr, adfer natur a chefnogi bywoliaeth deg i dyfwyr amrywiol er mwyn datblygu diogelwch maethol a gwytnwch domestig i'n diogelu rhag digwyddiadau annisgwyl byd-eang. Mae ein hargymhellion polisi yn cynnwys ffyrdd i gynyddu'n sylweddol y swm o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU[7], a chyda hynny, miloedd yn fwy o swyddi (hyd at 80 o swyddi fesul mil o dunelli a gynhyrchir[8]), er budd i gymunedau lleol.[9]

Ochr yn ochr â hyn mae'n rhaid i ni ddyblu'r ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n cael eu bwyta er mwyn gwella iechyd pobl[10] wrth sicrhau marchnad i dyfwyr, cefnogi'r broses o newid i ddulliau ffermio sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur. Er mwyn gallu cyflawni'r tri nod hyn, rhaid i fwyd da fod ar gael a'i fod yn fforddiadwy mewn lleoliadau manwerthu lleol ac ar draws ein hysgolion a'n hysbytai, wedi'i gyrchu drwy gadwyni cyflenwi moesol, sy'n seiliedig ar werth, sy'n darparu incwm gwell a mwy dibynadwy i dyfwyr na'r hyn maent yn ei brofi yn awr drwy gadwyni cyflenwi archfarchnadoedd.[11]

Os ydym am gynhyrchu bwyd sy'n dda i bobl ac i'r blaned ac sydd ar gael i bawb, waeth beth yw eu hincwm, rhaid i'r llywodraeth gefnogi garddwriaeth sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur a hynny'n weithredol, ac arwain drwy esiampl ar sut mae ein bwyd yn cael ei brynu a'i werthu.

# Pontio'r Bwlch

Y newyddion da yw drwy'r rhaglen Pontio'r Bwlch, rydym wedi dangos ei bod yn bosibl sicrhau bod bwyd iach a chynaliadwy ar gael i bawb. Gyda chefnogaeth gan lywodraethau cenedlaethol a lleol, a gweithio gyda thyfwyr, masnachwyr a phrynwyr bwyd ysgolion sy'n ymrwymedig i fwyd moesegol, a phobl sy'n gallu hwyluso newid ar lefel leol, er enghraifft partneriaethau bwyd lleol, gellir pontio'r bylchau ariannol a pholisi.

Roedd y rhaglen Pontio'r Bwlch, a gafodd ei hariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Gymunedol, yn cyd-gynhyrchu datrysiadau ymarferol i gefnogi tyfwyr sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur ac ehangu mynediad at ffrwythau a llysiau sy'n cael eu cynhyrchu'n organig i bobl ar incwm isel.

Rhwng 2022 a 2025, cafodd naw rhaglen beilot eu datblygu a'u gwerthuso ar y cyd ledled y DU gan chwe phartner arweiniol (Elusen Alexandra Rose, Synnwyr Bwyd Cymru, Cymunedau Tyfu, Nourish Gogledd Iwerddon, Nourish Yr Alban a Sustain) er mwyn deall y ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu cymunedau incwm isel â ffrwythau a llysiau organig, gan gyrraedd 80,000 a mwy o bobl.

Roedd y cynlluniau peilot yn cwmpasu'r dulliau gweithredu canlynol:

- Talebau a modelau cymhelliant ariannol eraill mewn lleoliadau manwerthu, gan gynnwys gwerthwyr llysiau, cydweithfeydd, marchnadoedd a stondinau bwyd a chynllun bocs llysiau;
- Cyflenwad cymorthdaledig i ysgolion, gan gynnwys drwy gadwyni cyflenwi bwyd newydd.

Darparodd y gwerthusiadau o'r cynlluniau peilot wybodaeth am ymarferoldeb a thystiolaeth o'r manteision, a'r wybodaeth sydd ei hangen i greu argymhellion ar sut i efelychu neu raddfa'r gwaith hwn.



Llun: Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets © Sylvie Belbouab

## Y prosiect mewn rhifau:

**2 flynedd**

**9 cynllun peilot**

**4 gwlad**




**3 chynllun peilot mewn ysgolion:** 75,000 o blant ysgol, 33% ohonynt mewn ardaloedd incwm isel

**6 chynllun peilot mewn lleoliadau manwerthu:** 2,500 o aelwydydd incwm isel wedi prynu llysiau organig drwy'r cynlluniau peilot – sy'n golygu bod dros 5,500 o bobl yn bwyta ffrwythau a llysiau organig gartref

## Y ffermwr yn datgloi miloedd o brydau ysgol carbon isel

Mae gan bys bŵer: maent yn brotein blasus, maethlon, fforddiadwy a charbon isel ac maent yn addas i gael eu tyfu yn y DU. Gydag ysgolion o dan bwysau i leihau costau a maethu ein plant yn dda, maent yn gynhwysyn delfrydol ar gyfer cinio ysgol.

Roedd y ffermwr Phil Swire wedi bod yn tyfu pys organig fel cnwd gorchudd ar ei fferm yn Swydd Aberdeen ac roedd eisiau canfod ffordd o'u cynnwys mewn prydau bwyd ysgol.

> *Give Peas a Chance! Dim ond diferyn bach yn y môr mawr yw hyn, ond mae wedi'n galluogi ni i wneud gwahaniaethau sylweddol i'n busnes a chwtogi cadwyni cyflenwi. Gyda digon o ddiferion, gallwn greu môr*
>
> **Phil Swire, ffermwr**
> **Fferm Balmakewan**

Gyda chyllid gan Pontio'r Bwlch, creodd Cymdeithas y Pridd Yr Alban brosiect partneriaeth gyda gwasanaeth Arlwyo Dinas Aberdeen a chanfuwyd prosesydd pys yng Nghanolbarth Lloegr. Cyfrannodd Pontio'r Bwlch i dalu am y bwlch rhwng y gost a'r hyn y gallai'r arlwywyr ysgol ei dalu, gan sicrhau bod pys organig Yr Alban yn cael eu gweini ar blatiau mewn 360 o ysgolion ledled Dinas Aberdeen.

Yn hanesyddol, briwgig traddodiadol yw'r rysáit mwyaf poblogaidd ar y fwydlen ar gylch bwydlen Aberdeen ac mae'n bryd allyriadau uchel, gyda 13.39g o garbon fesul plât.[12] Roedd ychwanegu pys i'r rysáit hon yn lleihau'r allyriad o hanner bron (42%) heb leihau'r nifer o blant a oedd yn dewis yr opsiwn hwn ar y fwydlen..



Llun: Plant a'r ffermwr Phil Swire ar Fferm Balmakewan ar gyfer Give Peas a Chance! © Matthias Kremer

# Buddion lluosog cefnogi twf garddwriaeth sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur

Gallai'r rhaglen Pontio'r Bwlch sybsideiddio cost ffrwythau, llysiau a chodlysiau wedi'u tyfu'n organig ac yn lleol er mwyn alinio'r pris a dalwyd gan y "cwsmer"[13] gyda phrisiau anorganig. Defnyddiwyd y dull gweithredu hwn mewn tair ysgol a chwe lleoliad manwerthu bach a chanolig (SME) ar draws pedair gwlad y DU er mwyn gallu deall y rhwystrau a'r datrysiadau posibl i gynyddu cyflenwad a galw, a chanfod graddau a'r ffactorau sy'n creu gwahaniaeth mewn costau rhwng bwyd anorganig a bwyd organig.

Mae'r canfyddiadau[14] yn dangos, gyda'r buddsoddiad cywir, ei bod yn bosibl i

- pobl brynu ffrwythau a llysiau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur yn eu cymunedau lleol, rhai sydd wedi'u tyfu ychydig filltiroedd o'u cartrefi.
- contractau'r sector cyhoeddus i yrru marchnad, cyflawni ymrwymiadau maniffesto'r llywodraeth i sicrhau 50% o fwyd lleol a chynaliadwy yng nghontractau'r sector cyhoeddus yn Lloegr, a rhoi'r hyder sydd ei angen ar dyfwyr i gynhyrchu ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur, a bwydo pobl ifanc yr un pryd gyda ffrwythau, llysiau a chodlysiau maethlon sydd wedi'u tyfu yn agos i'w hysgolion.

Canfu'r rhaglen y gellir cyfiawnhau sybsideiddio'r cam pontio i system fwyd well drwy gyflawni pedwar nod strategol allweddol sy'n cyflawni buddion ac arbedion tymor hwy i bobl ac i bwrs y wlad. Mae cynlluniau peilot a gwerthusiadau Pontio'r Bwlch yn darparu tystiolaeth o:

1. **Twf economaidd lleol.** Roedd mwy o arian yn cael ei ddosbarthu mewn cymunedau lleol o ganlyniad i'r prosiectau peilot. Roedd tyfwyr lleol, cyfanwerthwyr a gwerthwyr llysiau yn cael elw teg am eu cynnyrch a sicrhau £59,792 na fyddent wedi'i ennill fel arall. Yn eu tro, maent yn gwario eu harian yn lleol, gan gyfrannu at ddiogelu a chreu swyddi a chreu cyfoeth cymunedol yn yr ardaloedd sydd ei angen fwyaf. Gan ddefnyddio lluosogwr lleol[15] gallwn amcangyfrif bod hyn wedi creu £75,340 o wariant ychwanegol yn yr economi leol yn ystod oes fer y cynlluniau peilot hyn.

> Aelod o'r Clwb Bwyd Cyfeillgar, Carrick Greengrocers: *"Rwy'n cytuno y dylid cael gwerthwr llysiau lleol felly rwy'n ceisio ei gefnogi cymaint â phosibl"*

2. **Gwelliannau i iechyd a lles.** Mae pobl yn adrodd gwelliant sylweddol i'w hymdeimlad o iechyd, llesiant ac annibyniaeth i ddewis beth maen nhw'n ei gredu sydd orau iddyn nhw mewn ffordd bleserus ac urddasol. Mae gwelliannau i ddeiet, gyda mwy o amrywiaeth o gynhwysion ffres, heb blaladdwyr yn cefnogi'r ymdeimlad hwn o iechyd a lles.

> Ayesha, Queen of Greens yn Lerpwl: *"Mae bwyd organig yn bwysig am eu bod yn fwy iach a dyma ydym wedi arfer ei gael yn ôl ym Mangladesh felly mae'n bwysig iawn i mi [...] Ym Mangladesh rydym yn cynhyrchu popeth, rydym yn tyfu popeth yn organig a ffres."*

3. **Cymunedau cryfach.** Roedd pobl yn adrodd mwy o gydlyniant cymdeithasol ac ymdeimlad o gymuned, cysylltu gyda gwerthwyr llysiau a masnachwyr marchnad a gwneud cysylltiadau agosach gyda'r ffermwyr sy'n tyfu eu bwyd, a chogyddion a phlant ysgol yn ymfalchïo yn y bwyd iach, sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur sy'n cael ei weini mewn prydau ysgol.

> Cwsmer rheolaidd, Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets: *"Ar ôl dysgu am fwyd organig yn yr ymweliad â'r fferm, mae wedi gwneud popeth yn well o lawer."*


## Enillion posibl yn sgil buddsoddi mewn bwyd sy'n ystyriol o'r hinsawdd a byd natur

Am bob £1 o arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi, enillir £8.78 mewn buddion cymdeithasol, iechyd, economaidd ac amgylcheddol (gweler atodiad B).

**£1**
**buddsoddiad y llywodraeth**

**+**

**£1.10**
**buddsoddiad y cwsmer**




**29p**
**mantais i'r hinsawdd a natur**

**£1.44**
**twf economaidd lleol**

**£3.11**
**gwelliannau i iechyd a lles**

**£3.94**
**cymunedau cryfach**

**£8.78**[22]



4. **Mantais i'r hinsawdd ac i natur.** Sefydlwyd llwybrau gwell i'r farchnad i fwyd sy'n cael ei gynhyrchu drwy ddulliau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur. Gyda llai o gemegau synthetig yn llifo i'r pridd, amodau gwell i reibwyr plâu naturiol a pheillwyr i ffynnu, a bwyd yn cael ei gynhyrchu yn agosach at lle mae'n cael ei fwyta, gellir storio 30% yn fwy o garbon yn y pridd[17] a gellir sicrhau gwelliant o 30% mewn bioamrywiaeth yn ôl gwaith ymchwil.[18]

**Mae ein canfyddiadau yn dangos yn glir y manteision i bobl a'r blaned. Nawr yw'r amser i chwilio am ffyrdd o sicrhau ein cyflenwad bwyd er mwyn meithrin gwydnwch.**

# Troi canfyddiadau yn ddatrysiadau polisi

Roedd y rhaglen Pontio'r Bwlch yn ceisio dangos yr hyn sy'n bosibl: darparu tystiolaeth wedi'i gwerthuso'n dda o'r camau ymarferol a'r manteision: a chyflwyno datrysiadau y gellir eu hailadrodd a'u hehangu drwy bolisi ac arfer.

## Y cynllun talebau sy'n ehangu mynediad at farchnadoedd ffermwyr

Yn 2022, daeth pobl ynghyd drwy Pontio'r Bwlch o gymunedau ethnig amrywiol, ffermwyr, manwerthwyr a deietegwyr i ganfod ffyrdd i wneud ffrwythau a llysiau organig yn fforddiadwy i bobl ar incwm isel. Crëwyd y syniad o Gerdyn Planed – sy'n rhoi £11 yr wythnos i bobl ar incwm isel i'w ddefnyddio mewn tair marchnad ffermwyr yng Nghaerdydd.

Ers Ebrill 2024, mae'r cynllun wedi bod yn cysylltu cwsmeriaid newydd gyda chynnyrch organig a'r ffermwyr sy'n ei dyfu. Gyda 90 o aelodau, y mae eu hanner yn siopa'n wythnosol, mae'r prosiect wedi arwain at gynnydd o 10% mewn gwerthiannau i'r prif stondinwr ffermwr.

> *Rwyf wedi bod eisiau siopa am fwyd organig erioed, ac rwy'n gwneud hynny o bryd i'w gilydd, ond mae'r prisiau a'r opsiynau sydd ar gael bob amser wedi bod yn rhwystrau. Mae'r cynllun hwn wedi cynyddu fy nyhead a fy niddordeb mewn prynu bwyd organig.*
>
> **Dywedodd un cwsmer, Ebed A o Gaerdydd**




Llun: Paul's Organic Veg ym Marchnad Ffermwyr Caerdydd © Eleanor Church

Cynhyrchwyd y canfyddiadau a gyflwynir yma drwy fewnwelediadau ansoddol gan grwpiau ffocws, cyfweliadau, arsylwadau ac arolygon cyfranogwyr, a data meintiol ar gynhyrchu,  defnydd a chanlyniadau economaidd. Roedd y dull gweithredu dulliau cymysg hwn – a oedd yn ymgysylltu â chymunedau lleol, ffermwyr a chyfranogwyr yn y system fwyd – yn sicrhau bod y casgliadau yn gyfoethog ac yn adlewyrchu profiadau bywyd ac effeithiau mesuradwy, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Nododd partneriaid y rhaglen dri rhwystr amlwg i fwyta cynnyrch iach, sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur:

1. **Diffyg cyflenwad:** Nid yw'r DU yn tyfu digon o ffrwythau a llysiau i gyflawni'r anghenion presennol  heb sôn am yr hyn sydd ei angen ar gyfer deiet iach, ac ychydig iawn o'r ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu tyfu yn y DU sy'n organig. Mae hyn yn golygu bod y DU yn or-ddibynnol ar fewnforion.

2. **Cysylltiadau toredig:** Mae'r system ar gyfer trosglwyddo bwyd o ffermydd lleol i gymunedau cyfagos yn wan neu nid yw'n bodoli o gwbl. Mae ein system fwyd yn ganolog a chymhleth iawn, gyda deg manwerthwr mawr yn cynrychioli 96.7% o werthiannau llysiau, gyda llawer o broseswyr canolog a chyfranogwyr eraill yn sicrhau elw, yn gwasgu elw ffermwyr er mai nhw sy'n wynebu'r gyfran fwyaf o risg.

3. **Rhwystrau at fynediad:** Mae cost gymharol uchel ffrwythau a llysiau ffres i bobl mewn ardaloedd incwm isel, neu ddiffyg argaeledd mewn diffeithleoedd bwyd, yn golygu ei bod yn anodd neu'n amhosibl i lawer o bobl wneud dewisiadau bwyd iach, gan gynnwys ysgolion.

## Beth y mae angen i ni ei wneud i oresgyn y rhwystrau

### Gwella'r cyflenwad

**Hybu ffrwythau a llysiau sy'n cael eu cynhyrchu ym Mhrydain**

### Gwella'r canol colledig

**Sicrhau prisiau teg a seilwaith i ffermwyr a thyfwyr[23]**

### Gwella'r mynediad

**Galluogi i bawb gael mynediad at fwyd da**





Llun: James Taylor, Prif Gogydd yn Hackney Organic School Food © Eleanor Church

# Goresgyn y rhwystrau

Sefydlodd y cynlluniau peilot ddatrysiadau ymarferol a helpu i ddeall y datrysiadau systemig tymor hir i'r rhwystrau a gododd. Mae'r datrysiadau hyn wedi'u rhannu'n dri maes polisi.

| Rhwystr | Datrysiad |
|---|---|
| **Diffyg cyflenwad** | **Gwella'r cyflenwad** |
| **Lefelau isel o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol**<br><br>Canfu'r cynlluniau peilot ddiffyg cyflenwad o lysiau yn y DU sy'n cael ei waethygu gan ddigwyddiadau tywydd eithafol, yn y DU a thramor, sy'n golygu bod y cyflenwad yn fwyfwy anrhagweladwy.<br><br>I'r cynlluniau peilot hynny a oedd yn ddibynnol ar un neu fwy o dyfwyr, roedd angen gweithrediadau o faint ac amrywiaeth digonol i ddiwallu'r galw.<br><br>Roedd cydweithrediad rhwng cynlluniau peilot a chyfanwerthwyr, er enghraifft y Better Food Shed (Tower Hamlets a Hackney) a Castell Howell (Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion) yn galluogi i ddewisiadau amgen gael eu canfod pan oedd prinder yn y DU o ganlyniad i golli cnydau.<br><br>Un o gryfderau'r cynllun peilot Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion oedd ei fod yn cynnwys grŵp o dyfwyr ar draws ardaloedd daearyddol yn cydweithio i gyflawni anghenion yr awdurdod lleol ac ysgolion. Roedd hyn yn darparu gwytnwch i'r prosiect, gyda thyfwyr yn gallu cynyddu eu cynhyrchiant pan oedd eraill yn profi colledion neu fethiannau i'w cnydau.<br><br>*"Rwy'n teimlo'n falch a bodlon iawn. Maen nhw'n dod i fy adnabod i ac mai dyma yw fy mywyd. Maent yn gwerthfawrogi fy ngwaith caled fel ffermwr."* Paul, Tyfwr, Paul's Organics | Mae cydweithrediadau rhwng tyfwyr ar gynlluniau tyfu wedi'u galluogi i ddiwallu'r galw.<br><br>Roedd gweithio gyda chyfanwerthwyr a allai gaffael o'r Undeb Ewropeaidd pan fyddai angen yn sicrhau y gallai'r cynlluniau peilot gyflawni ar eu hymrwymiadau hyd yn oed os oedd prinder lleol.<br><br>**Tymor hir:** Buddsoddi yn awr yn system gynhyrchu organig ac agroecolegol y sector garddwriaeth i sicrhau mwy o wytnwch domestig yng nghyflenwad y DU.<br><br>**Argymhellion 1.1.-1.4.**<br><br>*"Mae'r ymateb gan y gymuned wedi bod yn aruthrol, ac mae gwybod ei fod yn wirioneddol cael ei werthfawrogi gan y bobl y mae'n cael ei dyfu ar eu cyfer yn rhoi llawer iawn o foddhad i mi. Mae dyddiau fel hyn yn fy atgoffa pam fy mod yn gwneud yr hyn rwy'n ei wneud – mae'n rhoi gwerth gwirioneddol i fy ngwaith fel tyfwr."* Chrissy, Prif Dyfwr, Folx Farm |

| Rhwystr | Datrysiad |
|---|---|
| **Canol ar goll** | **Gwella'r canol colledig** |

**Rhwystr: Canol ar goll**

**Mae gan gadwyni cyflenwi organig Bach a Chanolig (SME) gyfyngiadau seilwaith a logistaidd**

Canfu'r cynlluniau peilot bod systemau prosesu yn fwyfwy canolig oherwydd pŵer yr archfarchnadoedd mawr, sy'n golygu bod gofynion seilwaith (er enghraifft golchi, rhannu a bagio) yn ychwanegu cost ac allyriadau carbon i gadwyni cyflenwi lleol, y gellid eu hosgoi pe byddai mwy o seilwaith lleol ar gael.

Ar gyfer y cynllun peilot Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, roedd hyn yn golygu buddsoddi mewn golchwr moron er mwyn gallu darparu moron wedi'u paratoi'n briodol i ysgolion; ond ar gyfer y cynllun peilot Give Peas a Chance sy'n darparu pys sydd wedi'u tyfu'n lleol yn ysgolion Yr Alban, roedd yn rhaid cludo'r pys o Swydd Aberdeen i Ganolbarth Lloegr i'w prosesu cyn eu dychwelyd i ysgolion yn Yr Alban.

Nifer gyfyngedig o gyfanwerthwyr organig bach a chanolig sydd yn y DU, ac nid ydynt yn gweithredu ar raddfa ddigon mawr ar hyn o bryd i allu dosbarthu ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos ar unrhyw adeg, a fyddai'n cyflawni anghenion cwsmeriaid yn well. O ganlyniad, roedd angen gwaith cynllunio gofalus ynglŷn ag amseroedd cyflenwi a bu'n rhaid i'r Prif Gogydd James Taylor yng nghynllun Peilot Bwyd Ysgol Hackney ddychwelyd i brynu gan gyflenwr blaenorol pe byddai angen ychwanegiadau munud olaf i'r fwydlen.

*"Mae'r Better Food Shed [cyfanwerthwr bach a chanolig] yn wych. Mae gennym berthynas waith hyfryd gyda nhw. Maen nhw wedi arbed y straen o gyflenwi i Lundain ac wedi achub fy iechyd meddwl!"* Sarah, tyfwr, Sarah's Greens Organics

**Datrysiad: Gwella'r canol colledig**

Roedd gan y tîm Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yng Nghymru a Cymdeithas y Pridd Yr Alban rolau hwyluso hanfodol i gefnogi ffermwyr ar eu cynlluniau peilot i oresgyn heriau'r gadwyn gyflenwi. Mewn rhai achosion, camodd y cyfanwerthwr i mewn i ariannu offer neu i ddod o hyd i ateb.

**Tymor hir:** Datblygu marchnad gadarn ar gyfer cynnyrch organig wedi'i dyfu yn y DU, gan weithio gyda chynhyrchwyr a buddsoddi mewn capasiti prosesu ar gyfer tyfwyr bach a chanolig eu maint.

Buddsoddi mewn seilwaith bach a chanolig, sy'n canolbwyntio ar y ffermwyr ac ariannu astudiaethau dichonoldeb er mwyn datblygu achosion busnes ac arloesedd. Byddai'r blaenoriaethau yn cynnwys menter gymdeithasol neu gyfleusterau golchi a phecynnu sy'n eiddo i/wedi'u rhedeg yn gydweithredol (naill ai mewn lleoliad hwb bwyd neu ar fferm gyda mynediad cydweithredol i nifer o ddefnyddwyr).

**Argymhellion 2.1-2.2.**

*"Rydym yn talu ein tyfwyr yn gyflym. Rydym yn talu'r pris maen nhw ei eisiau. Ein polisi yw dim bargeinio. Felly mae hynny'n golygu ein bod yn boblogaidd gyda'n tyfwyr. Rydym yn eu talu ar unwaith. Ac yna rydym yn dueddol o gael tyfwyr teyrngar oherwydd y ffordd yr ydym yn eu trin."* Sean, cyfanwerthwr, Organic North

## Arlwywyr awdurdodau lleol yng Nghymru yn ysgogi cynnydd mewn llysiau sy’n cael eu cynhyrchu yng Nghymru

Mae gan Gymru hanes amaethyddol cryf, ond hyd at ychydig flynyddoedd yn ôl, mae wedi ymddangos yn amhosibl y gellid gweini llysiau organig o Gymru mewn prydau cinio ysgol.

Fodd bynnag. Yn 2022, daeth y cyfanwerthwr Castell Howel a Synnwyr Bwyd Cymru at ei gilydd i newid y stori. Gan sylweddoli manteision pellach tyfu cadwyni cyflenwi lleol, fe wnaethon nhw gymryd yr awenau i bontio’r bwlch pris a chyflenwi courgettes lleol, organig i glwb gwyliau ysgol yng Nghaerdydd.

> *Os gallwn ni gynhyrchu mwy o lysiau’n lleol yng Nghymru, bydd hynny’n helpu’r economi leol, yn tyfu’r sylfaen o gyflenwyr, ac yn meithrin mwy o wydnwch.*
>
> **Katie Palmer, Synnwyr Bwyd Cymru**

Gyda chefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a Pontio’r Bwlch, datblygodd y prosiect yn Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion sydd bellach yn cyflenwi llysiau i dros hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae incwm a chefnogaeth warantedig y cynllun peilot wedi caniatáu i’r 14 tyfwr blannu mwy o gnydau a chnydau newydd, sydd wedi cyfrannu at gynnydd o 20% yn arwynebedd y tir a ddefnyddir i dyfu llysiau yng Nghymru, gan ddefnyddio dulliau ffermio sy’n ystyriol o natur.

Yng nghyd-destun dirywiad ehangach yn y DU o ran y llysiau sy’n cael eu cynhyrchu yma, mae hyn yn dangos sut y gall defnyddio caffael cyhoeddus fel offeryn ar gyfer newid helpu i ddatblygu systemau bwyd cynaliadwy lleol cryfach wrth gyflenwi bwyd iach i blant ysgol.



Llun: Llysiau o Gymru mewn Ysgolion © Synnwyr Bwyd Cymru

| Rhwystr | Datrysiad |
|---|---|
| **Rhwystrau at fynediad** | **Gwella'r mynediad** |
| **Mae ffrwythau a llysiau a gynhyrchir gan ddefnyddio dulliau organig yn costio mwy**<br><br>Canfu'r rhaglen bod cynnyrch organig yn costio rhwng 25-50% yn fwy na chynnyrch anorganig, ar gyfartaledd, yn dibynnu ar y cynnyrch a'r gadwyn gyflenwi.<br><br>**Mae pobl yn credu bod cynnyrch organig yn costio mwy**<br><br>Yn ogystal â'r gwahaniaeth gwirioneddol yn y pris, mae tybiaeth hefyd bod cynnyrch organig yn ddrud oherwydd brandio a marchnata. Dangoswyd nad yw hyn bob amser yn wir. Er enghraifft, i'r gwerthwr llysiau symudol, Queen of Greens yn Lerpwl, a oedd yn prynu cynnyrch organig gan y cyfanwerthwr cydweithredol bach a chanolig Organic North, roedd angen disgownt i gwmpasu'r amrywiadau tymhorol mewn pris ond canfuwyd bod nifer o achosion lle'r oedd prisiau organig yn cyfateb i brisiau anorganig. | Roedd y rhaglen yn talu'r gwahaniaeth yn y gost rhwng ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig ac anorganig. Er mwyn symlrwydd, nododd pob cynllun peilot lefel cymhorthdal unffurf.<br><br>**Tymor hir:** Gweithredu strategaeth garddwriaeth sy'n cefnogi tyfwyr bach a chanolig i dyfu ffrwythau, llysiau a chodlysiau y mae galw amdanynt yn y DU er mwyn cynyddu argaeledd cynnyrch mwy fforddiadwy.<br><br>Cynlluniau peilot mwy, sy'n cefnogi pobl sy'n prynu cynnyrch tymhorol sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur.<br><br>**Argymhellion 1.1.-1.2., 3.1., 3.2. and 3.3.**<br><br>Cwsmer rheolaidd Planed Bwyd Caerdydd: *"Pe byddai gen i fwy o arian byddwn yn prynu bwyd organig, wrth blicio taten gallwch weld y suddion yn dod allan ohoni'n syth, felly rwy'n ei werthfawrogi. A'r blas. Ond mater o gost yw i mi."* |
| **Yn y DU nid yw pobl wedi arfer bwyta deiet tymhorol**<br><br>Mae ffrwythau a llysiau tymhorol y DU yn llai cyfarwydd i gyhoedd y DU, gyda galw uwch am ffrwythau trofannol a ffrwythau y tu allan i'w tymor. Er enghraifft, mae gan un o bartneriaid y rhaglen Pontio'r Bwlch, Bwyd Cymunedol Caeredin gymuned amrywiol o bobl sy'n siopa o lawer o ddiwylliannau bwyd. Yn y cynllun peilot hwn, roedd yn bwysig cynnal mynediad at gynnyrch sy'n tyfu'n well y tu allan i'r DU, ac ymgysylltu'r un pryd gyda phobl sy'n prynu bwyd mewn lleoliadau manwerthu ar y cyfleoedd i ddatblygu ryseitiau gyda chynnyrch tymhorol. | Ar draws y cynlluniau peilot hyn, roedd y cysylltiadau gyda manwerthwyr yn cynorthwyo pobl i ddysgu am y cynnyrch tymhorol y gallent ei brynu, Er enghraifft, yn y cynlluniau peilot manwerthu – bocs bwyd hygyrch Newtownards a Cherdyn Planed Caerdydd – bu'r ffermwr yn trafod gyda'r bobl a oedd yn prynu bwyd a roddodd fwy o ddealltwriaeth iddynt am sut i baratoi a storio cynnyrch.<br><br>Mewn ysgolion, bu hwyluswyr y gadwyn gyflenwi yn gweithio gydag ysgolion i gyd-gynllunio bwydlenni a oedd yn gweddu i'r timau cegin ac ymweliadau fferm a oedd yn annog y myfyrwyr i flasu bwydydd newydd. |

Yng nghynllun peilot Ysgol Organig Hackney, bu'r prif gogydd James Taylor yn arwain sesiynau coginio a blasu gyda phob dosbarth ar draws dwy ysgol. Cafodd pob dosbarth gyfle i ymweld â'r ardd farchnad Cymunedau Tyfu lleol. Dywedodd y cyfranogwyr bod y profiadau hyn yn cynorthwyo'r plant i flasu llysiau newydd, tymhorol a llai cyfarwydd.

Cwsmer rheolaidd Cerdyn Planed Caerdydd: *"wrth siarad â'r gwerthwyr bob wythnos a nhw'n rhoi syniadau i chi ar fwyd, y gwahanol brydau y gallwch eu gwneud, beth sy'n mynd orau gyda nhw. Nid mater o gael gwahanol fwydydd yn unig yw hyn, mae'n golygu blasu gwahanol brydau, maen nhw'n dweud wrthych chi beth i'w wneud gydag ef."*

**Tymor hir:** Buddsoddi i adnewyddu'r stryd fawr, drwy fuddsoddiad lleol a rhanbarthol, pecynnau cymorth, rhent is a buddsoddiadau eraill ar gyfer manwerthu bwyd, yn benodol cydweithfeydd neu fentrau cymdeithasol, sy'n cynyddu ymwelwyr i'r stryd fawr ac sy'n annog pobl i ddychwelyd at fanwerthwyr bwyd lleol.

Develop a whole school food curriculum that centers food and taste education.

**Argymhellion 3.1.-3.8.**

**Mae cyfleuster yn flaenoriaeth**

Mewn cyd-destun lle mae pobl naill ai'n siopa ar-lein neu yn eu harchfarchnad agosaf ar gyfer y rhan fwyaf o'u hanghenion, gall mentrau bwyd cymunedol fel cydweithfeydd gael anhawster i gystadlu o ran amlder a chyfleuster.

Er enghraifft, yng nghynllun peilot Marchnad Ffermwyr Caerdydd, er bod y farchnad wedi hen sefydlu, nid oedd llawer o siopwyr yn defnyddio marchnad unwaith yr wythnos. Ar ôl lansio cynllun peilot Cerdyn Planed Caerdydd, roedd pobl yn gwerthfawrogi gwerth siopa'n wythnosol mewn marchnad ffermwyr fel blaenoriaeth, gyda hanner aelodau'r cynllun peilot 'Cerdyn Planed' yn ymweld â'r farchnad unwaith yr wythnos.

Yng Ngogledd Iwerddon, agorwyd partner rhaglen Pontio'r Bwlch, Carrick Greengrocers, i sicrhau bod ffrwythau a llysiau ffres ar gael yn gyson yn y dref ac er mwyn adfer eu stryd fawr leol.

Trwy gyflwyno cymhellion, fe newidiodd pobl yn y cynlluniau peilot eu harferion siopa ac roeddynt yn gweld y manteision o wneud hynny yn nhermau iechyd a lles, yn ogystal â'r cysylltiad gyda'u cymuned.

Yn Lerpwl, mae bws y Queen of Greens yn cyrraedd pobl yn agos at eu cartrefi, sy'n ei gwneud yn bosibl iddyn nhw fwyta cynnyrch ffres.

**Tymor hir:** Buddsoddi i adnewyddu'r stryd fawr a sicrhau cymhellion arian parod, er enghraifft mae talebau (e.e. Cychwyn Iach) a ffrwythau a llysiau ar bresgripsiwn, yn cael eu derbyn gan fanwerthwyr lleol, er enghraifft marchnadoedd stryd a siopau cornel.

**Argymhellion 3.1. and 2.3.**

Cwsmer Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets: *"Nid wyf yn prynu ffrwythau a llysiau mor aml yn yr archfarchnad yn awr, rwy'n aros i'r gydweithfa agor."*

| Rhwystr | Datrysiad |
| --- | --- |
| **Rhwystrau at fynediad** | **Gwella'r mynediad** |
| **Gwrthwynebiad i gynnyrch organig heb ei brosesu mewn ceginau ysgolion**<br><br>Yn aml iawn gall cynnyrch a dyfwyd gan ddefnyddio dulliau organig gyrraedd ceginau heb eu golchi neu heb eu prosesu, sy'n golygu bod angen i dimau cegin ddatblygu sgiliau newydd a chymryd mwy o amser i ddefnyddio'r cynhwysion hyn mewn prydau bwyd.<br><br>Roedd y timau arlwyo a fu'n cymryd rhan yn y cynllun peilot Give Peas a Chance yn Swydd Aberdeen yn amharod ar y dechrau i  ddefnyddio pys sych a oedd ond wedi'u prosesu'n ysgafn a chodwyd pryderon na fyddai'r bobl ifanc yn parhau i fwyta'r prydau ysgol.<br><br>Y Prif Gogydd mewn ysgol yn Aberdeen: *"Roedd yn brofiad gwych oherwydd roedd yn faes anghyfarwydd i mi. Nid oeddwn yn gwybod sut groeso y byddai'r pryd yn ei gael ond fe wnes i fwynhau pob munud ac rwy'n edrych ymlaen at roi cynnig ar brydau newydd sy'n cynnwys y pys hollt sych."* | Fe wnaeth Cymdeithas y Pridd Yr Alban helpu i leddfu pryderon Cogyddion drwy hwyluso'r broses o ddatblygu ryseitiau gyda nhw drwy roi cyfle i bawb rannu heriau a datrysiadau. Fe wnaeth hyn gynorthwyo Dinas Aberdeen i greu ryseitiau newydd gyda'r pys, a oedd yr un mor boblogaidd â'r ryseitiau , blaenorol, gan gynyddu'r nifer o ryseitiau a oedd yn defnyddio'r pys hollt o 28% o fewn 3 mis cyntaf y cynllun peilot.<br><br>**Tymor hir:**Adolygu a diwygio cyllid bwyd ysgolion i sicrhau gweithlu sy'n derbyn cyflog teg a mynediad at ddulliau datblygu sgiliau.<br><br>Penodi hwyluswr y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod bwydlenni yn cynnwys elfen o gyd-gynllunio gyda staff y gegin yng ngwasanaethau Arlwyo Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Academi Lluosog.<br><br>**Argymhellion 3.2. and 3.5.** |
| **Contractau arlwyo anhygyrch**<br><br>Canfu ein cynlluniau peilot ei bod yn anodd i gynhyrchwyr a chyflenwyr bach a chanolig gael mynediad at gontractau arlwyo oherwydd eu maint a'u natur gymhleth. Y contractau sy'n fwy hygyrch yw pan fydd yr arlwyo'n cael ei ddarparu'n fewnol yn yr ysgol, fel yn ein cynllun peilot yn Hackney, neu pan fydd awdurdod lleol yn rhedeg gwasanaeth arlwyo, fel yng Nghymru a'r Alban. | Roedd y cynlluniau peilot yn gweithio'n bennaf drwy gontractau arlwyo presennol a oedd gan gyfanwerthwyr i'w galluogi i gyflwyno cynnyrch i'r gadwyn gyflenwi. Yr eithriad i hyn oedd Hackney gan fod y dull arlwyo mewnol yn golygu ei bod yn bosibl i'r cynllun peilot newid cyflenwyr yn hawdd.<br><br>**Tymor hir:** Ariannu a chymell fframweithiau caffael bwyd y sector cyhoeddus sy'n cefnogi caffael lleol, cynaliadwy a Phrydeinig, byrhau cadwyni cyflenwi a galluogi cyfranogiad gan gynhyrchwyr a busnesau bach a chanolig ym Mhrydain.<br><br>**Argymhellion 3.2. and 3.5.** |

## Y bws sy'n gyrru cynnyrch organig i fannau newydd

Nid yw'r rhwystrau i gael mynediad at ffrwythau a llysiau organig yn ariannol yn unig. Mae 1.2 miliwn o bobl yn y DU yn byw mewn ardaloedd incwm isel lle y mae'n anodd cael mynediad at fwyd ffres fforddiadwy[19] – ac yn y mannau hynny, mae cynnyrch ffres organig hyd yn oed yn anoddach i'w ganfod.

Dyma gyflwyno Queen of Greens; bws a drawsnewidiwyd yn siop lysiau symudol sy'n dod â ffrwythau a llysiau fforddiadwy i gymunedau o gwmpas Lerpwl a Knowsley – ardaloedd sy'n cael eu disgrifio'n aml fel anialwch bwyd.

> *Rwyf newydd brynu brocoli enfawr, ac rwy'n gwybod nad oes unrhyw sothach ynddo. Bu'n ddefnyddiol iawn i ni gael y fan hwn, yn enwedig yma, oherwydd mae'n fan gymunedol ac mae dros y ffordd i fy nhŷ.*
>
> **Clair, cwsmer Queen of Greens**

Gwnaethant ganfod yn eu hymgynghoriadau bod gan gwsmeriaid Queen of Greens ddiddordeb mewn cynnyrch organig, ond nid ydynt yn gallu ei fforddio. Drwy Pontio'r Bwlch, maent wedi llunio partneriaeth ag Organic North i gyflwyno ffrwythau a llysiau organig ar y bws, ac maent yn derbyn Rose Vouchers neu dalebau Cychwyn Iach i alluogi eu cwsmeriaid i'w cyfnewid. Mae'r bws yn aros mewn 40 lleoliad, ac mae gan 700 o unigolion yr wythnos bellach fynediad at gynnyrch organig na fyddai'n bosibl fel arall.




Llun: Paul Flannery, Queen of Greens, Lerpwl © Eleanor Church

# Argymhellion polisi

## 1. Gwella'r cyflenwad

**1.1 Cyflwyno strategaeth twf garddwriaeth traws-adrannol er mwyn cynyddu'r ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n cael eu cynhyrchu a'u bwyta.**

- Cefnogi cydweithrediad rhwng a chyda thyfwyr.
- Cynnig grantiau i newydd-ddyfodiaid a thyfwyr, ochr yn ochr â chyngor a mynediad at dir, er mwyn cynyddu'r nifer o dyfwyr a'r swm o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu.
- Cynnig hyfforddiant garddwriaeth i newydd-ddyfodiaid a'r genhedlaeth nesaf o dyfwyr.

**1.2 Integreiddio'r strategaeth twf garddwriaeth â chynllun gweithredu organig i sicrhau bod y cynnydd mewn cynhyrchiant yn lleihau difrod amgylcheddol, yn cynyddu bioamrywiaeth, ac yn chwarae ei ran wrth ddiwallu a gyrru'r galw cynyddol am fwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur.**

**1.3 Cyflwyno haen gydweithredol i gynlluniau ffermio er mwyn cefnogi'r cydweithrediad rhwng tyfwyr lluosog. Hefyd, cyllido camau gweithredu sy'n rhan o'r haen.**

**1.4 Creu marchnad ddomestig gadarn ar gyfer garddwriaeth organig ac agroecolegol y DU drwy ddefnyddio pŵer caffael y sector cyhoeddus.**

- Cyflawni ar ymrwymiad y llywodraeth i gyflawni 50% o fwyd y sector cyhoeddus o ffynonellau lleol neu gynaliadwy.
- Ariannu hwyluswyr y cadwyn gyflenwi a chymorth cegin mewn awdurdodau lleol, sydd wedi bod yn hanfodol i bob cynllun peilot ysgol wrth ddatgloi cyfleoedd i dyfwyr gael mynediad at gontractau arlwyo.
- Gofyn i ysgolion gael polisi bwyd a bwyd yn y cwricwlwm, ac ymhlith staff arlwyo ac addysgol hyrwyddo'r bwyd y mae'r plant yn ei fwyta.

## 2. Gwella'r canol colledig

**2.1 Buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi bach a chanolig byrrach a'u cefnogi, drwy greu cronfa fuddsoddi ranbarthol neu grantiau sy'n targedu busnesau bach a chanolig yn y gadwyn gyflenwi organig ac agroecolegol.**

- Dylai grantiau a mathau eraill o fuddsoddiadau flaenoriaethu cynyddu capasiti prosesu ac agregu rhwng ffermwyr neu ar lefel ddosbarthu, er enghraifft golchwyr neu holltwyr.
- Creu polisïau cynllunio ar lefel leol sy'n blaenoriaethu gofod a chyfleusterau ar gyfer busnesau bach a chanolig, gan gynnwys cyfanwerthwyr a dosbarthwyr sy'n cael eu harwain gan werthoedd.

**2.2 Gwella tegwch a thryloywder ar draws cadwyni cyflenwi prif ffrwd drwy ddeddfwriaeth, a thrwy atgyfnerthu rôl rheoleiddwyr cadwyni cyflenwi'r DU.**

- Gellir cyflawni hyn drwy, er enghraifft, gwella systemau a phwerau'r Rhwymedigaeth Bargen Deg, Dyfarnwr y Cod Bwyd a Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol, a dysgu o arfer da a osodwyd gan y cyfieithiad Sbaeneg o gyfarwyddeb Arfer Masnachu Annheg yr UE.[20]

**2.3 Cynhyrchu cynllun bwyd lleol ar gyfer pob rhanbarth mewn cydweithrediad â chymdeithas sifil a'r gymuned, gan gynnwys partneriaethau bwyd, i fapio'r dulliau rhanbarthol mwyaf effeithiol er mwyn cynyddu argaeledd bwyd lleol iach a chynaliadwy.**

# 3. Gwella'r mynediad

## Mewn lleoliadau manwerthu

**3.1 Defnyddio cynlluniau cymell presennol a rhai newydd i gynyddu mynediad at ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig mewn manwerthwyr annibynnol.**

- Ariannu cynlluniau peilot pellach a'u cyflwyno mewn cymunedau er mwyn deall y dulliau mwyaf effeithlon o gael pobl i ddychwelyd i'r stryd fawr i brynu ffrwythau a llysiau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur. Gallai'r rhain fod yn gynlluniau talebau fel y rhai yng nghynllun peilot y Cerdyn Planed, a allai adeiladu ar gynlluniau presennol fel Cychwyn Iach[21], neu dreialu ffrwythau a llysiau ar bresgripsiwn.

## Mewn lleoliadau bwyd y sector cyhoeddus

**3.2 Buddsoddi yn rolau a chyfleusterau hwyluso'r gadwyn gyflenwi i sicrhau cysylltiad ac adborth rhwng tyfwyr, swyddogion caffael awdurdodau lleol a thimau cegin er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth dda o lysiau tymhorol sy'n cael eu tyfu yn y DU ar fwydlenni ysgolion a phwysau bwydlenni ysgol.**

**3.3 Ariannu a chymell fframweithiau caffael bwyd y sector cyhoeddus sy'n cefnogi caffael lleol, cynaliadwy a Phrydeinig, yn byrhau cadwyni cyflenwi ac yn galluogi cyfranogiad gan gynhyrchwyr a busnesau bach a chanolig Prydeinig, fel Food for Life Served Here. Dylai hyn gynnwys ystyried:**

- rhannu tendrau contract yn gyfrannau llai
- cynnwys pwysoli cynaliadwyedd, ffresni a lleoliad
- amserlenni talu hyblyg.

**3.4 Diwygio canllawiau prydau ysgol am ddim i sicrhau bod cynnyrch â sicrwydd ansawdd (ffrwythau, llysiau a chodlysiau ardystiedig organig) yn un o amodau'r grant.**

**3.5 Adolygu a diwygio cyllid bwyd ysgol i adlewyrchu gwir gost darparu prydau cynaliadwy a maethlon, gan gynnwys bwyd, llafur, datblygu'r gweithlu a sgiliau a seilwaith lleol.**

**3.6 Gosod targedau amgylcheddol uchelgeisiol ar gyfer ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig ar gyfer bwyd y sector cyhoeddus mewn safonau prynu a safonau maeth bwyd ysgol sy'n benodol i bob gwlad, a fydd yn darparu'r ysgogiad a'r cymhellion i ddilyn a gwreiddio'r gwaith y mae'r cynlluniau peilot wedi'i ddechrau.**

**3.7 Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gael polisi bwyd a bwyd yn y cwricwlwm.**

**3.8 Cynyddu codlysiau ar fwydlenni ysgolion, gan gynnwys lle bo'n berthnasol, llacio'r gofynion i weini cig.**

# Y camau nesaf

Mae cynlluniau peilot Pontio'r Bwlch wedi arddangos beth sy'n bosibl i alluogi plant, ac aelwydydd sydd ag incwm isel, i gael mynediad at ffrwythau, llysiau, a chodlysiau sy'n garedig i'r hinsawdd a natur. Mae'r cynlluniau peilot hyn wedi dangos y bydd yn cymryd dull trawslywodraethol cydlynol, mewn partneriaeth â'r sectorau bwyd a ffermio, i ysgogi'r cyflenwad, y galw a thwf cadwyni cyflenwi lleol moesegol yn y canol.

Bydd ehangu'r mynediad at ffrwythau, llysiau a chodlysiau a gynhyrchir yn organig yn gyrru'r galw hirdymor a'r diogelwch i dyfwyr llai yn sector ffermio'r DU. Bydd hefyd yn golygu newid teg i ddeietau iach a chynaliadwy, gan gynyddu'r buddion amgylcheddol a sicrhau newid cyfiawn a chynhwysol i system o gynhyrchu ein bwyd sy'n gyfeillgar i natur a'r hinsawdd. I wneud i hyn ddigwydd:

Dylai **llywodraethau ac awdurdodau lleol** ar draws pedair cenedl y DU gydnabod a mabwysiadu'r angen i fuddsoddi mewn garddwriaeth sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur i gynyddu ei argaeledd cyffredinol. Mae angen ymwreiddio hyn drwy strategaeth, polisi, cyllid, hwyluso'r gadwyn gyflenwi, seilwaith bwyd lleol a mynediad at dir.

Mae'n ofynnol bod y **llywodraeth, tyfwyr, a'r actorion eraill sy'n ymwneud â bwyd a ffermio** yn cydweithio i sicrhau'r seilwaith a'r gwaith hwyluso sydd ei angen i ddatblygu cadwyni cyflenwi llai. Byddai hyn yn galluogi pobl a sefydliadau'r sector cyhoeddus i brynu a gwerthu ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig a gynhyrchwyd yn lleol ac mae hyn wedi'i nodi yn y Cynllun Bwyd Lleol, y mae Sustain yn cydarwain arno.

Mae angen i **gymdeithas ddinesig, y gymuned ymchwil, cyllidwyr a'r llywodraeth** gydweithio i ehangu ac ail-greu'r cynlluniau peilot hyn mewn lleoliadau newydd i barhau i brofi, dysgu ac addasu atebion sy'n darparu newid hirdymor yn y system fwyd a sicrhau ein bod yn manteisio ar y momentwm a'r hyn a ddysgir, yn hytrach na'u colli.



Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets © Sylvie Belbouab

# Atodiad A: Yr argymhellion polisi yn ôl gwlad

Byddai'r argymhellion polisi a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn cael eu cyflwyno'n wahanol ar draws pob un o'r gwledydd, gyda rhai gwledydd eisoes yn datblygu neu'n cwblhau rhai o'r argymhellion. Mae'r tabl isod yn amlinellu ble fyddai'r cyfrifoldeb am bob argymhelliad ym mhob gwlad.

| Argymhelliad | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r cyflenwad: cynyddu'r cyflenwad o ffrwythau a llysiau agroecolegol ac organig** | | | | |
| **Canlyniad y strategaeth fwyd:** "Cyflenwad cynaliadwy a chydnerth" cefnogi tyfwyr sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol a mwy o wydnwch mewn cyflenwad domestig o fwyd iach a chynaliadwy. | | | | |
| Cyflwyno strategaeth neu strategaethau twf garddwriaeth drawsadrannol i gynyddu cynhyrchu a bwyta ffrwythau, llysiau a chodlysiau. | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Adran Addysg (DfE), Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI), y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) | Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) | Ddim yn berthnasol | Materion Gwledig Cymru |
| Integreiddio strategaeth twf garddwriaeth gyda chynllun gweithredu organig. | Defra, Yr Adran Fusnes a Masnach (DBT), Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) | Ddim yn berthnasol | I ddod Hydref 2025 | Materion Gwledig Cymru |
| Creu marchnad ddomestig gadarn ar gyfer garddwriaeth organig ac agroecolegol y DU drwy ddefnyddio pŵer caffael y sector cyhoeddus. | Defra, DfE | DAERA, Yr Adran Addysg | Y Gyfarwyddiaeth Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig, Y Gyfarwyddiaeth Caffael ac Eiddo | Materion Gwledig Cymru, Adran Addysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno haen gydweithredol i gynlluniau ffermio i gefnogi cydlyniant rhwng nifer o ffermwyr a chyfranogwyr cyflenwi eraill. Ac ariannu camau gweithredu fel rhan o'r haen. | Defra | DAERA | Y Gyfarwyddiaeth Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig | *Cynnwys datblygiad mewn Cynllun Ffermio Cynaliadwy*<br>Materion Gwledig Cymru |
| **Gwella'r canol colledig: cryfhau'r seilwaith dosbarthu a phrosesu i gefnogi cyflenwad sy'n canolbwyntio ar ffermwyr** | | | | |
| **Canlyniad y strategaeth fwyd:** "Twf Da" gyda chadwyni cyflenwi mwy teg ac agored. | | | | |
| Gwella tegwch a thryloywder ar draws cadwyni cyflenwi prif ffrwd drwy ddeddfwriaeth, a thrwy gryfhau rôl rheoleiddwyr cadwyn gyflenwi'r DU. | DBT | DBT | DBT | DBT |
| Buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi byrrach i fusnesau bach a chanolig a'u cefnogi drwy greu cronfa arian genedlaethol neu ranbarthol o grantiau wedi'u neilltuo ar gyfer busnesau bach a chanolig mewn cadwyni cyflenwi organig ac agroecolegol, gan flaenoriaethu'r capasiti prosesu a chydgrynhoi/ dosbarthu. | Defra, DBT, MHCLG, Trysorlys EF (HMT) | DAERA, Invest NI, Adran yr Economi | Y Gyfarwyddiaeth Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig | Materion Gwledig Cymru, Banc Datblygu Cymru |
| Cynhyrchu cynllun bwyd lleol ar gyfer pob rhanbarth ar y cyd â ffermwyr, tyfwyr, mentrau sy'n cael eu harwain gan werthoedd, cymdeithas sifil a chymunedau. | Defra, Awdurdodau lleol/ cyfunedig | DAERA, cynghorau lleol | Y Gyfarwyddiaeth Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig/ awdurdodau rhanbarthol/ lleol | Materion Gwledig Cymru<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>awdurdodau lleol |

| **Gwella'r mynediad: galluogi mwy o bobl i gael mynediad at ffrwythau, llysiau a chodlysiau sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad y strategaeth fwyd:** "Bwyd iachach a mwy fforddiadwy" Amgylchedd bwyd gwell sy'n cefnogi gwerthiant bwyd iachach a mwy cynaliadwy yn amgylcheddol. | | | | |
| **Bwyd Ysgol** | | | | |
| Buddsoddi mewn rolau a chyfleusterau hwyluso'r gadwyn gyflenwi i sicrhau cysylltiad ac adborth rhwng tyfwyr, swyddogion caffael awdurdodau lleol a thimau cegin fel bod dealltwriaeth gydfuddiannol dda o lysiau tymhorol a dyfir yn y DU a phwysau bwydlenni ysgolion. | Rôl a ddelir yn yr awdurdod lleol neu a ddarperir gan Food For Life Served Here. Awdurdodau lleol/rhanbarthol | | | |
| Ariannu a rhoi cymhellion i fframweithiau sy'n cefnogi cyrchu lleol, cynaliadwy a Phrydeinig, yn byrhau cadwyni cyflenwi ac yn galluogi cyfranogiad gan gynhyrchwyr a busnesau bach a chanolig Prydeinig, fel Food for Life Served Here. | DfE, Awdurdodau Lleol | Yr Adran Addysg (DoE) | Education Scotland, Awdurdodau Lleol | Adran Addysg, Awdurdodau Lleol |
| Gosod targedau amgylcheddol uchelgeisiol ar gyfer ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig mewn bwyd y sector cyhoeddus, wedi'u gosod mewn safonau prynu a safonau maeth bwyd ysgol sy'n benodol i bob gwlad.<br><br>Diwygio canllawiau prydau ysgol am ddim i wneud targed ar gyfer cynnyrch o ansawdd sicr (ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig ardystiedig) yn amod ar y grant. | DfE, Defra | DAERA | Y Gyfarwyddiaeth Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig, Y Gyfarwyddiaeth Caffael ac Eiddo | Adran Addysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu a diwygio cyllid bwyd ysgolion i adlewyrchu gwir gost darparu prydau bwyd cynaliadwy a maethlon, gan gynnwys bwyd, llafur, datblygu gweithlu a sgiliau, a seilwaith lleol. | DfE, HMT | DoE, Adran Gyllid | Education Scotland, Cyfarwyddiaethau Cyllid | Adran Addysg, Trysorlys Cymru |
| Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gael polisi bwyd a bwyd yn y cwricwlwm. | DfE. | Ddim yn berthnasol | Drwy FFLSH | Ddim yn berthnasol |
| Cynyddu codlysiau ar fwydlenni ysgolion, gan gynnwys lle bo'n berthnasol, llacio'r gofynion i weini cig. | DfE | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Retail** | | | | |
| Defnyddio cynlluniau cymhelliant presennol a newydd i gynyddu mynediad at ffrwythau, llysiau a chodlysiau organig mewn manwerthwyr annibynnol. | Defra, Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Care (DHSC), DWP | DAERA, Adran Iechyd (DoH) | Ddim yn berthnasol | Materion Gwledig, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

# Atodiad B: Methodoleg modelu economaidd

## Trosolwg a methodoleg

Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar fodelu economaidd gan Brifysgol Portsmouth a'r Organic Research Centre, sy'n edrych ar ddata o'r cynlluniau peilot ochr yn ochr â llenyddiaeth a gyhoeddwyd.

Canfu'r ymchwil, ar gyfer pob £1,000 ychwanegol o gymhorthdal i brosiectau manwerthu, mae gwerth tua £2,100 o ffrwythau a llysiau organig yn cael eu prynu: tua 700kg a 84 o drafodion ychwanegol â chwsmeriaid.

Gwnaeth y dadansoddiad foneteiddio'r buddion allweddol o'r cynlluniau peilot, gan gyfuno data uniongyrchol o'r prosiect, modelu economaidd, a chanfyddiadau arolygon. Defnyddiodd y tîm ymchwil dybiaethau ceidwadol lle'r oedd bylchau yn y data ac addaswyd yr holl werthoedd i flwyddyn pris cyffredin a chynhwyswyd dadleoli lle y bo'n briodol.

Troswyd yr holl werthoedd ariannol i GBP 2024 er cysondeb. Gwnaeth y "sefyllfa wrthffeithiol" dybio nad oedd ymyriad (status quo).

### 1. Effaith Amgylcheddol

Gan fod y ffrwythau a'r llysiau a gyflenwyd i'r cynlluniau peilot yn un o sawl ffrwd incwm yn unig i'r cynhyrchwyr, amcangyfrifodd y tîm yr ardal tir organig a gefnogwyd gan bob prosiect ar sail swm a math y ffrwythau a llysiau a werthwyd, a'r tir nodweddiadol a oedd ei angen i gynhyrchu'r cnydau hyn. Galluogodd hyn feintioliad o'r elfennau allanol amgylcheddol blynyddol a gafodd eu hosgoi mewn perthynas â'r llinell sylfaen anorganig.

Roedd y buddion amgylcheddol a gafodd eu moneteiddio yn cynnwys:

- Lleihau carbon
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth
- Lleihau trwytholchi nitradau
- Osgoi tocsigrwydd i'r amgylchedd a phobl
- Llai o ddefnydd o fewnbwn synthetig
- Arbedion carbon yn sgil cadwyni cyflenwi byrrach

Defnyddiwyd ffactorau lleihau a gwerthoedd difrod unedau o dystiolaeth y DU/UE, llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, setiau data cenedlaethol, a fframweithiau prisio a gydnabyddir. Yna, caiff cyfanswm y buddion amgylcheddol eu cyfrifo drwy luosi'r ardal organig a gefnogir ym mhob categori cnwd gyda'r gostyngiad perthnasol mewn baich amgylcheddol a'r gost difrod cysylltiedig a gafodd ei osgoi, wedi'i grynhoi ar gyfer pob cynllun peilot.

### 2. Buddion a Gwarged Defnyddwyr

Mae'r adroddiad yn trin buddion defnyddwyr fel cyfuniad o dair cydran gyflenwol:

a. Gwarged defnyddwyr yn sgil prisiau is,
b. Gwelliannau iechyd meddwl sy'n ymwneud ag urddas, a
c. Effeithiau llesiant ehangach (iechyd a bodlonrwydd mewn bywyd).

#### a. Gwarged Defnyddwyr (Enillion Lles Ariannol)

Gwnaeth cymorthdaliadau ostwng pris ffrwythau a llysiau organig, gan gynyddu'r fforddiadwyedd, y dewis, a'r pŵer prynu i ddefnyddwyr. Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd yn mesur y cynnydd hwn mewn lles drwy ddulliau gwarged defnyddwyr safonol:

- Tybir bod cromlin galw llinol.
- Ar gyfer grwpiau incwm isel, mae'r model yn tybio na phrynwyd cynnyrch organig cyn y cymorthdaliadau, ac felly mae'r enillion mewn gwarged defnyddwyr yn cyfateb i'r ardal lawn o dan y gromlin galw uwchlaw'r pris â chymhorthdal.
- Defnyddiwyd y rheol hanner i gyfrifo'r gwarged defnyddwyr fel hanner y cymhorthdal wedi'i luosi gyda'r swm a brynwyd.

- Ar gyfer prosiectau nad ydynt yn targedu aelwydydd incwm isel yn benodol, defnyddiwyd tystiolaeth o elastigedd pris (cynnydd o 14% mewn defnydd ar gyfer cymhorthdal o 10%) i amcangyfrif y swm a fyddai wedi'i brynu heb y cymhorthdal. Mae hyn yn darparu amcangyfrif arffin is i osgoi gorddatgan gwarged defnyddwyr.

Mae'r gydran hon yn cwmpasu fforddiadwyedd, mynediad, a dewis gwell.

### b. Buddion Urddas (Iechyd Meddwl a Lleihau Gorbryder)

Oherwydd bod y prosiectau wedi'u dylunio i osgoi stigma ac i roi rheolaeth a dewis i'r cyfranogwyr, yn wahanol i nifer o fodelau cymorth bwyd traddodiadol, mae'r Dadansoddiad Cost a Budd yn cynnwys gwerth iechyd meddwl llai o orbryder:

- Mae'r dystiolaeth yn cysylltu mentrau bwyd ar sail urddas â gostyngiad mewn gorbryder ysgafn, sydd wedi'i brisio fel 0.0788 blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (£6,252.85 y person fesul blwyddyn).
- Mae tybiaeth geidwadol yn cymhwyso'r budd yn unig ar gyfer un diwrnod fesul rhyngweithiad, sy'n cyflwyno gwerth o £17.13 fesul ymweliad gan gyfranogwr.
- Mae'r budd hwn yn cael ei gyfrif ar gyfer pob rhyngweithiad sy'n cynnwys aelwyd incwm isel, sy'n cynrychioli effaith seicogymdeithasol gadarnhaol y model cymorth bwyd nad yw'n stigmateiddio, sy'n grymuso.

Mae hyn yn cipio'r manteision emosiynol a seicolegol i ddefnyddwyr yn sgil profiad urddasol.

### c. Buddion Iechyd a Llesiant (Bodlonrwydd mewn Bywyd a Grymusiad)

Er na ellid modelu'r gostyngiad mewn clefydau hirdymor, mae'r Dadansoddiad Cost a Budd yn cynnwys y gwelliannau llesiant a welwyd mewn arolygon cyfranogwyr:

- Gwnaeth cyfranogi rheolaidd gynyddu'r bodlonrwydd mewn bywyd, grymusiad, hyder deietegol, a chysylltiad cymunedol.
- Cafodd yr enillion llesiant ehangach hyn eu moneteiddio gan ddefnyddio'r metrig WELLBY (Blwyddyn Bywyd a Addaswyd ar gyfer Llesiant).
- Mae canllaw Trysorlys y DU yn rhoi gwerth i 1 WELLBY o £15,300 y person fesul blwyddyn.
- Gweithredwyd cynnydd ceidwadol iawn o 0.001 WELLBY fesul cyfranogwr: £15.30 y person fesul blwyddyn.
- Mae'r prisiad hwn yn gymwys i'r holl gyfranogwyr unigryw, ac mae'n cynrychioli'r gwelliannau cyffredinol i lesiant y tu hwnt i leihau gorbryder.

Mae'r gydran hon yn cipio buddion seicolegol, cymdeithasol, a llesiant cyfranogi.

## 3. Effaith Gymdeithasol

Canfu'r dadansoddiad o'r arolygon cyfranogwyr bod cyfranogi'n aml mewn cynlluniau peilot yn rhoi hwb i gysylltiad cymunedol ac yn lleihau unigrwydd.

- Mae adroddiad y New Economics Foundation, *Farmer-focused routes to market: An evaluation of social, environmental, and economic contributions of growing communities*, yn rhoi gwerth o rhwng £319 a £370 fesul cwsmer i gynnydd mewn ymdeimlad o gymuned a rhyngweithio cymdeithasol.
- Rhoddir gwerth o £363 i fuddion cymdeithasol fesul ymweliad fferm (procsi: cyfradd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig).

## 4. Effaith Economaidd Leol

Mae prosiectau'n darparu ffrydiau incwm newydd a mynediad i farchnadoedd ar gyfer tyfwyr bach/lleol.

- Amcangyfrifir bod cyfanswm y refeniw ychwanegol ar gyfer ffermwyr organig yn £154,303, gyda refeniw newydd net (ar ôl cyfrif am ddadleoli) o £42,811 ar gyfer prosiectau manwerthu/blychau llysiau/marchnad ffermwyr a £16,981 ar gyfer prosiectau prydau ysgol.
- Mae effaith lluosydd lleol yn ychwanegu swm amcangyfrifiedig o £75,340 o wariant ychwanegol yn yr economi leol.

# Ôl-nodiadau

1 Elusen Alexandra Rose, Barry Ferguson, Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd, Carrick Greengrocers, Bwyd Cymunedol Caeredin, Synnwyr Bwyd Cymru, Cymunedau Tyfu, Nourish Scotland, Nourish NI, Queen of Greens, Cymdeithas y Pridd Yr Alban – wedi'u cydlynu gan Sustain: Y gynghrair dros fwyd a ffermio gwell.

2 Ar gyfer cynaliadwy yn yr adroddiad hwn, darllenwch am ddulliau cynhyrchu sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur, sydd hefyd yn cyfeirio at fwyd a gynhyrchir gan ddefnyddio egwyddorion organig ac agroecolegol. Darllenwch fwy am agwedd Sustain at fwyd a ffermio iach a chynaliadwy yma: https://www.sustainweb.org/sustainable-farming-campaign/sustains-approach/

3 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Adroddiad Diogelwch Bwyd y DU 2024, (Defra, Rhagfyr 2024), t. 128.

4 Johan Rockström et al, The EAT–Lancet Commission on healthy, sustainable, and just food systems. (The Lancet, Cyfrol 406, Rhifyn 10512, Hydref 2025), t. 1625 – 1700.

5 Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2025 (Sefydliad Joseph Rowntree, Ionawr 2025).

6 Thomas Weekes, Alex Viccars, Charlotte Miles, Adam Nichols, Arianne Clarke, Holly Clarkson, Ellie Ball a Sophie Padgett, Hunger in the UK 2025 (Trussell Trust, Medi 2025).

7 Tim Lang, gyda Natalie Neumann ac Antony So, Just in Case: narrowing the UK civil food resilience gap, (Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol, Chwefror 2025), t. 333.

8 Synnwyr Bwyd Cymru, Adroddiad Cryno Tunelli o Newid, t. 19.

9 IGD, Viewpoint: Driving growth through a thriving food system, (IGD, Medi 2025) t.35.

10 Rockstrom et al, The EAT–Lancet Commission on healthy, sustainable, and just food systems - Summary Report, (The Lancet, Hydref 2025), t. 3.

11 Jacks a Hammans, Unpicking Food Prices: Where Does Your Pound Go, and Why Do Farmers Get so Little?, (Sustain. Rhagfyr 2022).

12 Dadansoddiad data gan Angela Trgear, Prifysgol Caeredin gan ddefnyddio'r Offeryn Dadansoddi Prydau Carbon.

13 Yn achos cynlluniau peilot manwerthu, y person a oedd yn prynu'r bwyd ac i'r cynlluniau peilot ysgolion, yr awdurdod lleol neu'r ysgol

14 Bydd adroddiad pellach sy'n cynnwys canfyddiadau ychwanegol a'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn y cynlluniau peilot i ddilyn

15 Kłoczko-Gajewska, et al. (2023). [What are the economic impacts of short food supply chains? A local multiplier effect (LM3) evaluation. European Urban and Regional Studies, 31(3), 281-301. https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/09697764231201572

16 Yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Portsmouth a'r Ganolfan Ymchwil Organig ar gyfer Pontio'r Bwlch

17 Aubert a Poux, 'An agro-ecological Europe: a desirable, credible option to address food and environmental challenges', (IDDRI, 2018).

18 Tuck, Winqvist, Mota, Ahnström, Turnbull, a Bengtsson, 'Land-use intensity and the effects of organic farming on biodiversity: a hierarchical metaanalysis.'(Journal of applied ecology, 51(3), tt.746-755, 2014).

19 https://www.smf.co.uk/publications/barrierseating-healthily-uk/

20 Head of State, Cyfraith 16/2021, Rhagfyr 14, sy'n diwygio Cyfraith 12/2013, Awst 2, ar fesurau i wella gweithrediad y gadwyn fwyd, (Head of State, Rhagfyr 2021), t. 153323-153352.

21 Ymgyrchoedd Sustain i wella'r nifer o bobl sy'n manteisio ar gynlluniau Cychwyn Iach a Dechrau Gorau ac ehangu hyn i bob teulu sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol.

22 Yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Portsmouth a'r Ganolfan Ymchwil Organig ar gyfer Pontio'r Bwlch

23 Ystyr seilwaith bwyd lleol yw mynediad at systemau prosesu, pecynnu, dosbarthu, hwyluso'r gadwyn gyflenwi, cydlynu cyfanwerthu, dulliau, offer, cyfleusterau a chyfleoedd manwerthu a marchnata er mwyn galluogi cadwyni cyflenwi llai sy'n cysylltu ffermwyr a thyfwyr gydag allfeydd marchnad amrywiol.

## Diolchiadau

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ariannu'r gwaith hwn.

**Cydweithwyr a chynghorwyr:**

- Aine Douglas
- Anna Chworow
- Anne Touboulic
- Barbara Crowther
- Bee Laughton
- Beth Bell
- Carol Alyce Adams
- Chris Walsh
- Dan Crossley
- Dee Woods
- Denise Bentley
- Djenai Delarue
- Emmanuel Sawyer
- Gareth Morgan
- Gavin Fletcher
- Hannah Brinsden
- Jade Bashford
- James Woodward
- John McCormick
- Julia Kirby Smith
- Jyoti Fernandes
- Katrin Hochberg
- Kelly Parsons
- Kim Newstead
- Laura Stratford
- Lindy Sharp
- Louise Cairns
- Lucy Antal
- Mark Simmonds
- Myles Bremner
- Nick Weir
- Ped Asgarian
- Peter Samson
- Phil Carson
- Rachel Jones
- Rebecca Tobi
- Ruth Galpine
- Ruth Westcott
- Sarah Compson
- Steven Jacobs
- Suzy Russell
- Vicki Hird
- Will White

**Arweinwyr y cynlluniau peilot:**

- Elusen Alexandra Rose
- Cymunedau Tyfu
- Barry Ferguson
- Cwmni Buddiant Cymunedol Alchemic Kitchen
- Carrick Greengrocers
- Synnwyr Bwyd Cymru
- Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd
- Cymdeithas y Pridd Yr Alban
- Bwyd Cymunedol Caeredin

**Partneriaid monitro a gwerthuso:**

- Angelina Sanderson Bellamy, UWE
- Caroline Verfuerth, Prifysgol Caerdydd
- Helena Knight, Prifysgol Caerdydd
- Alexander Jones, Prifysgol Caerdydd
- Lisa Jack, Prifysgol Portsmouth
- Alan Leonard, Prifysgol Portsmouth
- Rebecca Nicolaides, Prifysgol Portsmouth
- Rowan Dumper-Pollard, Canolfan Ymchwil Organig
- Honor Eldridge, Canolfan Ymchwil Organig
- Angela Tregear, Prifysgol Caeredin
- Michelle Green

# Pontio'r Bwlch

## Sut i wella'r system fwyd i bawb

**Cyhoeddiad Sustain**

Tachwedd 2025

### Ynglŷn â Sustain

Mae Sustain yn gynghrair bwerus o sefydliadau a chymunedau yn cydweithio er mwyn creu system well o fwyd, ffermio a physgota, ac yn meithrin y mudiad dros newid.

sustain@sustainweb.org
www.sustainweb.org

Sustain, The Green House,
244-254 Cambridge Heath Road
London E2 9DA
020 3559 6777

### Ynglŷn â Phontio'r Bwlch

Wedi'i lansio yn 2022, cefnogir Pontio'r Bwlch gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae Sustain, elusen Alexandra Rose a Growing Communities, yn gweithio gyda Synnwyr Bwyd Cymru a Nourish Scotland, yn dod â sefydliadau ynghyd sydd wedi'u huno yn y gred bod gan bawb yr hawl i fwyd iach a fforddiadwy sy'n dda i'r blaned.

www.sustainweb.org/bridging-the-gap/
bridgingthegap@sustainweb.org

Sustain is a Registered Charity No. 1018643 © Sustain 2025